# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llandderfel

Nos Fawrth, Tachwedd 7fed 2023 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Mynach.

Presennol: Eifion Davies (cadeirydd), Bethan Thomas, Eilir Rowlands, Iolo Evans, Gwenda Evans, Dewi Pritchard, Alwyn Jones, Gwenda Morris, Gwynedd Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.
Ymddiheuriadau:, Rita Jones.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Tachwedd 7fed 2023) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **Dim.**

<u>iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.</u>
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.

b) Partneriaeth Penllyn (cost torri llwybrau troed**) – gan nad oedd y Clerc wedi derbyn manylion y contract gyda Chyngor Gwynedd cytunwyd i'w drafod yn ein cyfarfod nesaf.**

c) Tendrau gwaith torri glaswellt y mynwentydd - **trafodwyd y prisiau a dderbyniwyd a chytunwyd i rôi'r gwaith i S. W. Jones am y 3 mlynedd nesaf. Gan nad oedd y clerc wedi clywed yn ynglŷn â'r grant o Gronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog trafodwyd y prisiau a dderbyniwyd a'r gyfer y gwaith. Cytunwyd fod angen torri'r coed yn Llanfor beth bynnag a phenderfynwyd gofyn i Tom Edwards i wneud y gwaith. Os byddai'r Cyngor yn derbyn y grant cytunwyd ar y cyflenwyr i'r nwyddau a'r contractwyr ar gyfer y gwaith.**

<u>iv) Gohebiaeth</u>
<u>a) Cyngor Gwynedd.</u>
i) Ymgynghoriad cyfathrebu presennol y Gwasanaethau Cymdeithasol.

<u>b) Llywodraeth Cymru.</u>
i) Iechyd Democrataidd a Digidol Cynghorau Cymuned a Thref.
ii) Ymgynghoriad Strategaeth Diogelwch Ffyrdd **– gofynwyd i'r clerc ei anfon ymlaen i'r cynghorwyr ei gwblhau.**

<u>c) Parc Cenedlaethol Eryri.</u>
i) Ymgynghoriad Strategaeth Hamdden.

<u>ch) Amrywiol.</u>
i) Panel Annibynnol Cymru – Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Chrynodeb o Benderfyniadau 2024-25. **Cydnabuwyd**
ii) Diweddariad Triathlon Y Bala.

<u>v) Ceisiadau Cynllunio</u>
a) C23/0928/04/LL - Cais i osod to ar ben iard casglu gwartheg. Bryn Derw, Glan Yr Afon.
**Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol.**

<u>vi) Materion Ariannol.</u>
<u>a) Llywodraeth Cymru.</u>
i) Swm priodol o dan adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – terfyn gwariant adran 137 ar gyfer 2024-25.

<u>b) Adolygu cyflog a chostau'r clerc.</u>
**Cytunwyd i'r gadw run fath ar gyfer 2024-25 gydag arian ar gael i dalu unrhyw oriau ychwanegol fydd y clerc yn gorfod hawlio.**

<u>c) Cyllideb a Praesept 2024/25.</u>
**i) Cytunwyd i gynyddu'r arian ar gyfer yswiriant, tal aelodaeth Un Llais Cymru a'r gost o dorri glaswellt yn y mynwentydd. Cytunwyd i leihau cyllideb offer swyddfa gan nad oedd angen gwariant sylweddol.**

**ii) Gan fod pryder fod angen ail wneud rhan o wal gynnal mynwent Llanfor a bod cais oedd mewn llaw am loches bws newydd yn y pentref cytunwyd fod angen codi'r Praesept. Cytunwyd i godi'r Praesept i £13,000 ar gyfer 2024-25, byddai hyn yn sicrhau fod angen ar gael ar gyfer unrhyw wariant hanfodol, i gefnogi prosiectau lleol ac fel bod dros 3 mis o wariant gros y cyngor tu cefn.**

ch) Derbyniadau.
i) Cymdeithas Llanfor (cabinet difib).

d) Taliadau - **Cymeradwywyd.**
i) Cyflog a chostau'r clerc (Hyd-Rhag).
ii) TWE (Hyd-Rhag)
iii) Hannah Gwenllian Web Designs (gwefan)
iv) ICO (debyd uniongyrchol)
v) Pethe Penllyn (hysbyseb mynwentydd)
vi) Difb Store (cabinet difib Llanfor)
vii) Archwilio Cymru (archwiliad allannol)

dd) Cyfraniadau Ariannol.
i) Radio Ysbyty Cymru, Tenovus, Urdd Gobaith Cymru - Cronfa Cyfle i Bawb, Hosbis Tŷ'r Eos - **cytunwyd i'w drafod gyda gweddill o'r ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.**

vii) Materion lleol.
**a) Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH CHWEFROR 6ED YN NEUADD SARNAU.**